Dalen Ffeithiau

Beth yw'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol?

Mae'r cynllun Cronfa Gymdeithasol yn darparu grantiau a benthyciadau di-log i helpu pobl ar incwm isel â chostau sy'n anodd iddynt eu cwrdd o'u hincwm rheolaidd.

- Gall pobl sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i seilio ar incwm neu gredyd Pensiwn y Wladwriaeth gael eu hystyried am grant gofal cymunedol.
- Gall pobl sydd wedi bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i seilio ar incwm am chwe wythnos ar hugain wneud cais am fenthyciad trefnu.
- Gall pobl sydd heb fod ag adnoddau digonol i gwrdd â'u hanghenion uniongyrchol yn y tymor byr wneud cais am fenthyciad argyfwng.

Beth yw rôl y Gwasanaeth Arolwg Annibynnol?

Corff statudol annibynnol yw'r Gwasanaeth Arolwg Annibynnol (IRS) wedi'i leoli yn Birmingham. Ei rôl yw i gynnal arolygon annibynnol o benderfyniadau'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol. Bydd Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol, a fydd yn gwneud yr arolwg annibynnol, yn dod i'w benderfyniad ei hunan ar sail holl amgylchiadau'r achos.

Ffeithiau a ffigyrau

Mae'r IRS:

- Yn newid dros hanner o'r penderfyniadau Cronfa Gymdeithasol a arolygir gennym.
- Yn gwneud penderfyniad ar achosion Cronfa Gymdeithasol anghymleth o fewn 12 niwrnod.
- Yn delio â benthyciadau argyfwng sydd eu hangen ar frys o fewn 24 awr neu ynghynt na hynny.

Ble i ddod o hyd i fwy o wybodaeth

Mae ein cyhoeddiadau i gyd ar gael yn rhad ac am ddim. Medrwch lwytho'r cyhoeddiadau i lawr a darganfod mwy am y Gwasanaeth Arolwg Annibynnol drwy ymweld â'n gwefan ar **www.irs-review.org.uk**

Sut i gysylltu â'r IRS

Drwy gyfrwng y teleffon ar **0121 606 2191**, neu drwy anfon ffacs i **0121 606 2201**
Drwy neges minicom ar **0121 606 2188**
Drwy anfon e-bost at **aam@irs-review.org.uk**
Drwy ysgrifennu at **The Business Team**

4th Floor, Centre City Podium, 5 Hill Street, Birmingham B5 4UB